

Problem China – a’n problem ni: ynni adnewyddadwy neu losgi hydrocarbon?

Yr Athro Gareth Wyn Jones yn dangos sut y mae ymweliad â China’n rhoi awch ar ystyried rhai o broblemau mawr ein byd.

ER y twf economaidd anhygoel, mae cannoedd o filiynau o bobol yn China’n ysu am safon byw gwell.

Ystyr hynny, fwy na thebyg, ydi byw mewn fflat bach mewn un o ddegau o dyrrau mawr mewn dinas gyda thraffig yn chwyrlïo heibio, anadlu awyr o ansawdd sâl a gweithio mewn ffatri sy’n cynhyrchu rhywbeth i ni yn y Gorllewin.

Er cynddrwg y mae hynna’n swnio i ni, mae’n llawer gwell na chael eich condemnio i dlodi a llafur diddiwedd yn y caeau.

Ond, yn China a’r Gorllewin, mae yna gysylltiad hanesyddol agos rhwng twf economaidd, codi safon byw a’n defnydd o ynni ac, o ganlyniad, allyrion o nwyon tŷ gwydr.

Dyna pam fod ôl troed carbon bob Cymro tua dwywaith a hanner ôl troed person o China.

Mae cyfanswm byd-eang allyrion nwyon tŷ gwydr yn nesu at 50 biliwn tonnall y flwyddyn. O ystyried bod poblogaeth y byd wedi cyrraedd 7 biliwn yn ddiweddar, mae hynny’n golygu tua 7 tonnall y pen y flwyddyn ar gyfer pob copa walltlog.

13 BILIWN TUNELL Y FLWYDDYN YN RHAGOR O CO₂

Yn digwydd bod, mae allyrion y pen yn China yn debyg iawn i’r cyfartaledd byd-eang yma; gydag allyrion Cymru tua 17 tonnall y pen.

Wrth gwrs mae ffigyrau’r Unol Daleithiau, Awstralia a Gwledydd y Gwlff yn llawer mwy na’n rhai ni!

Yn amlwg, os yden ni’n poeni am ‘newid hinsawdd’ nŵan ac yn cwyno am ein tywydd od, anwadal, be fyddai canlyniad 1.3 biliwn o Chineaid yn gollwng nwyon ar y un raddfa â 3 miliwn ohonon ni? Tua 13 biliwn tonnall y flwyddyn yn rhagor o nwyon tŷ gwydr yn yr awyr. A hynna heb sôn am India!

Mae yna ddwy broblem anferth arall. Gan fod CO₂ yn aros yn yr awyr am ddegawdau lawer, a gan fod ein ffyniant ni wedi’i greu ar losgi tanwydd rhad [glo, olew a nwy], mae China a’u tebyg yn dadlau ein bod eisoes wedi defnyddio rhan helaeth o’n ‘siâr’ o’r nwyon hyn, felly rhaid i ni dorri gyntaf ac yn ddyfnach.

Yn ail, trwy ddibynnu ar China i gynhyrchu llawer iawn o’n nwyddau, ryden ni yn y Gorllewin wedi allforio ein ‘hól troed carbon’ yn ogystal ag allforio swyddi.

Yn China, realiti gwleidyddol sy’n gyrru’r twf economaidd anhygoel ond didostur. Prin y byddai’r Llywodraeth Gomiwnyddol yn goroesi methiant. Felly, mae pwerdai glo’n agor bron pob wythnos.

CHINA’N ARWAIN GYDAG YNNI ADNEWYDDADWY

Ond mae yna ochr arall fwy gobeithiol. Mae’r sanhedrin comiwnyddol yn llawn sylweddoli dibyniaeth oesol y wlad ar lif Afon Yansei a’r Afon Felyn sy’n tarddu yn y ‘trydydd pegwn iâ’ - mynyddoedd yr Himalaya.

Fel yr Arctig ac, i raddau, yr Antarcig, mae hwn yn meirioli. Felly, mae China ar flaen y gad wrth fuddsoddi’n drwm mewn ynni adnewyddadwy – er eu lles eu hunain.

O ganlyniad, mae pris paneli ffotofoltaig yn gostwng yn sydyn. Yn yr Unol Daleithiau, mae defnyddio paneli o China’n golygu trydan sy’n rhatach nag o bwerdai nwy.

Y cwestiwn felly i ni a’r Chineaid - pa duedd fydd yn ennill ... y ras am ynni adnewyddadwy rhad neu’r ddibyniaeth ar losgi tanwydd hydrocarbon i gadw ein diwydiannau ar fynd?

[Ebrill 11, 2013]